NHS
Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion

03 Gorffennaf 2007

Safoni Bandiau Arddwrn Ysbytai

Defnyddir bandiau arddwrn i adnabod cleifion mewnol ysbyty. Pan fyddwch yn yr ysbyty, mae hi'n hanfodol eich bod yn derbyn band arddwrn sydd â manylion cywir amdanoch arno a'ch bod yn gwisgo'r band hwnnw. Mae hyn yn sicrhau y bydd y staff yn gwybod pwy ydych chi ac yn rhoi'r gofal cywir i chi.

Mae Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) wedi rhoi cyngor i ysbytai'r GIG ar safoni bandiau arddwrn er mwyn i bob ysbyty ddefnyddio'r un dyluniad a bod yr un wybodaeth am gleifion yn cael ei chynnwys ar bob band arddwrn.

Bydd hyn yn helpu staff sy'n gweithio mewn amryw o ysbytai i wybod pa wybodaeth dylid ei rhoi ar fandiau arddwrn cleifion.

Sut gallwch chi helpu

Gallwch chi helpu i sicrhau y caiff bandiau arddwrn eu safoni drwy wneud yn siŵr bod y manylion craidd canlynol ar y band arddwrn a roddir i chi yn yr ysbyty:

- eich enw cyntaf;
- eich enw olaf;
- eich dyddiad geni;
- eich rhif GIG (os na roddwyd rhif GIG i chi, defnyddir rhif dros dro);
- llinell gyntaf eich cyfeiriad cartref (dim ond os ydych mewn ysbyty yng Nghymru y bydd hyn yn berthnasol).

Os nad yw'r wybodaeth ar eich band arddwrn yn gywir, rhowch wybod i nyrs a gofyn am fand arddwrn gyda'r wybodaeth gywir arno.

Gwybodaeth am NPSA

Mae NPSA yn hyrwyddo gofal iechyd mwy diogel drwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion gan staff a chleifion, a thrwy weithio gyda sefydliadau'r GIG i hyrwyddo diwylliant agored a theg.

Os carech chi gael mwy o wybodaeth am waith Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, edrychwch ar ein gwefan yn: www.npsa.nhs.uk